OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 53

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016

## RHAN 2

## Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: meini prawf penodedig

### Rheilffyrdd

**9.**—(1) Nid yw adeiladu rheilffordd o fewn rheoliad 3(1)(f) ac eithrio pan fo'r rheilffordd (ar ôl ei hadeiladu)—

(a) yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru (yn ddarostyngedig i baragraff (2)),

(b) yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr cymeradwy, ac

(c) yn cynnwys darn o drac di-dor sydd â'i hyd yn fwy na dau gilometr,

yn ddarostyngedig i baragraff (5).

(2) Yn achos rheilffordd sydd (ar ôl ei hadeiladu) yn rhannol yng Nghymru, ni fydd adeiladu'r rheilffordd o fewn rheoliad 3(1)(f) ac eithrio i'r graddau y mae darn o drac di-dor sy'n fwy na dau gilometr o hyd yng Nghymru.

(3) Nid yw addasu rheilffordd o fewn rheoliad 3(1)(f) ac eithrio pan fo—

(a) y rhan o'r rheilffordd sydd i'w haddasu yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru (yn ddarostyngedig i baragraff (4)),

(b) y rheilffordd yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr cymeradwy, ac

(c) yr addasiad i'r rheilffordd yn cynnwys gosod darn o drac di-dor sydd â'i hyd yn fwy na dau gilometr,

yn ddarostyngedig i baragraff (5).

(4) Yn achos rheilffordd sydd (ar ôl ei haddasu) yn rhannol yng Nghymru nid yw'r addasiad i'r rheilffordd o fewn rheoliad 3(1)(f) ac eithrio i'r graddau y mae'r darn o drac addasedig yng Nghymru yn ddarn di-dor o fwy na dau gilometr.

(5) Nid yw adeiladu neu addasu rheilffordd o fewn rheoliad 3(1)(f) i'r graddau y mae'r rheilffordd yn ffurfio rhan (neu y bydd yn ffurfio rhan ar ôl ei hadeiladu) o gyfnewidfa nwyddau rheilffordd.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "gweithredwr cymeradwy" ("*approved operator*") yw person—

(a) a awdurdodwyd i fod yn weithredwr rhwydwaith gan drwydded a roddwyd o dan adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(**1**) (trwyddedau ar gyfer gweithredu asedau rheilffordd), neu

(**1**) 1993 p. 43. Diwygiwyd adran 8 gan: adran 216 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) a pharagraffau 1 a 4 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno; adran 16 o Ddeddf Diogelwch y Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 (p. 20), a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 2

(b) sydd yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr cwmni sydd yn berson o'r fath.

mae i "is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr" yr ystyr a roddir i "wholly-owned subsidiary" yn Neddf Cwmnïau 2006(**2**);

ystyr "rheilffordd" yw—

(a) rheilffordd;

(b) tramffordd; neu

(c) system drafnidiaeth sy'n defnyddio dull arall o drafnidiaeth gyfeiriedig, nad yw'n system o gerbydau troli.

mae i "rhwydwaith" yr ystyr a roddir i "network" gan adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(**3**);

mae "trac addasedig" ("*altered track*") yn cynnwys trac ychwanegol, amnewidiol neu wyredig.

i'r Ddeddf honno; a chan adrannau 1 a 59 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 (p. 14) a pharagraff 3 o Ran 1 o Atodlen 1, a Rhan 1 Atodlen 13 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 2006 p. 46. Gweler adran 1159.

(**3**) Gwnaed diwygiadau i adran 83(1) nad ydynt yn berthnasol i'r rheoliad hwn.